

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Gorffennaf 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas, y Parch. S. F. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

22. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Ms J. Hughes (yn sâl) a B. F. Moylan (yn sâl).

23. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MAI 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Mai 2016.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
025	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	6,050.00	Taliadau Gwasanaeth Ffordd Wellington Chwarter 1 2016/17
026	Sage & Co	30.00	Ffioedd Cyflogres Mis Mai 2016
027	HSBC	13.47	Taliadau Banc 17/03/16 i 16/04/16
028	Staff CTR	6,591.62	Cyflogau Staff Mis Mai 2016
029	Gunsmoke Communications	1,280.00	Gwasanaethau Digwyddiadau mis Ebrill 2016
030	DVSC	15.00	Tanysgrifiad 2016/17
031	Cyngor Sir Ddinbych	18,000.00	Contract Teledu Cylch Cyfyng 2016/17
032	Canda Copying	334.96	Taliadau Rhentu a Chopïo Du a Gwyn
033	Canda Copying	76.72	Taliadau Copïo Lliw
034	BLESMA	703.25	Elusen y Maer 2015/16 - 50% o'r arian a godwyd
035	RThEM	2,628.34	Didyniadau PAYE mis Ebrill 2016
036	Cyngor Sir y Fflint	3,669.28	Didyniadau Pensiwn mis Ebrill 2016 ynghyd â chyllid diffyg
014	Cyngor Sir Ddinbych	510.00	Y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 Rhandaliad 2 o 10
037	JDH Business Services	648.00	Ffi Archwilio Mewnol 2015/16
038	Scotty's Little Soldiers	703.25	Elusen y Maer 2015/16 - 50% o'r arian a godwyd
039	Arian Mân	200.00	Ychwanegu at Arian Mân (Siec Rhif 203376)
040	M D Roberts	200.00	Llogi System Sain ar gyfer Seremoni Sefydlu'r Maer a'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol
041	Gwasg Helygain	273.00	Tafenni a Phosteri ar gyfer Digwyddiad y Penwythnos Brenhinol
042	John Stephens Florists	140.00	4 x Tusw o Flodau ar gyfer Digwyddiad Sefydlu'r Maer
043	T2Green	1,143.00	Digwyddiad Gwneud y Maer 18/05/16 (Siec 203377)
	Cyfanswm Taliadau	43,209.89	
	Cronfa Adneuo Sector Cyhoeddus	23.61	Difidendau Ebrill a Mai 2016
	HSBC	42.20	Llog ar Adneuron y Farchnad Arian
	Santander	1.65	Llog ar y Cyfrif Buddsoddi mis Mai 2016
	Cyfanswm Derbyniadau	67.46	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

24. POLISI LWFANSAU AELODAU CYNGOR TREF Y RHYL

Dywedodd y Cadeirydd bod yr eitem uchod wedi ei gohirio.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i'w gynnal ar 7fed Medi 2016.

25. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYFYNGIADAU PARCIO AR CRESCENT ROAD, Y RHYL

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn y Gorchymyn Traffig arfaethedig uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i ddarparu bae llwytho pwrpasol.

PENDERFYNWYD *derbyn y Gorchymyn.*

26. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP HEDDLU CYMDOGAETH GORLLEWIN Y RHYL

Fel cynrychiolydd penodedig y Cyngor ar y grŵp uchod, adroddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, ei bod yn mynychu cyfarfodydd Cymunedol yn y bore ond bod cyfarfodydd Amgylchedd yn dilyn yn y prynhawn.

Gofynnodd y Cynghorydd Butterfield am gael ystyried ail gynrychiolydd i fynychu'r cyfarfodydd Amgylcheddol.

PENDERFYNWYD *enwebu'r Cynghorydd Ms J. McAlpine fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y grŵp Amgylcheddol.*

27. SWYDD WAG LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YCHWANEGOL

Dyweddodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd A. R. James, fel Llywodraethwr Cymunedol penodedig y Cyngor, wedi ymddiswyddo o'r swydd a gofynnodd am gael ystyried rhywun yn ei le.

PENDERFYNWYD *enwebu'r Cynghorydd T. Thomas yn lle'r Cynghorydd James.*

28. CAIS I ANNERCH Y CYNGOR – GWEITHIWR IEUENCTID CYMUNEDOL, CYNGOR SIR DDINBYCH

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan y Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol newydd ei benodi.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r cais.*

29. GOHEBIAETH: BAND ARIAN Y RHYL

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i ocsiwn addewidion y band a oedd i'w chynnal yn y man.

Cynigiodd yr Aelodau gyfrannu poteli o win ar gyfer basged ddiodydd i'w chynnig fel gwobr yn yr ocsiwn.

PENDERFYNWYD *bod y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones yn rhoi basged ddiodydd at ei gilydd, yn debyg i'r llynedd.*

30. EITEM GAN AELOD: CAIS GAN EGLWYS TOMOS SANT

Gofynnodd y Cynghorydd Miss S. L. Roberts am gefnogaeth yr aelodau i lythyr o gefnogaeth i fynd gyda chais ariannu'r Eglwys i ddarparu cinio pecyn am ddim

gan ddefnyddio Cae Chwarae Antur y Rhyl yn ystod gwyliau'r haf, i blant a fyddai'n derbyn pryd bwyd ysgol am ddim yn ystod y tymor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais.

31. **EITEM WYBODAETH GAN AELOD: CAIS GAN GAFFI'R GERDDI BOTANEGOL**

Gofynnodd y Cynghorydd P. Prendergast am gefnogaeth yr Aelodau i lythyr o gefnogaeth i fynd gyda chais ariannu caledi Caffi'r Gerddi Botanegol i gynorthwyo gyda'r rhent.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais.

32. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

33. **EITEM GAN AELOD: CAIS GAN YSGOL UWCHRADD Y RHYL**

Gofynnodd y Cynghorydd Miss R. Siddall am gefnogaeth yr Aelodau i gais brys a wnaed gan Bennaeth yr Ysgol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais.

34. **SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU**

Gan gyfeirio at Gofnod Rhif 18 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mehefin 2016, dywedodd Clerc y Dref bod y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau wedi cytuno â'r holl amodau a bennwyd gan y Cyngor Tref i'r trefniadau a wnaed yn ddiweddar rhwng y ddau.

PENDERFYNWYD bod adroddiadau chwarterol y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau yn cael eu derbyn gan Bwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol y Cyngor Tref.

35. **MYNYCHU CYNHADLEDD CLERCOD CYNGHORAU LLEOL (SLCC)**

Dywedodd Clerc y Dref bod cynhadledd nesaf ei gorff proffesiynol, yr SLCC, i'w chynnal yn Llandudno ym mis Medi ac y byddai'n ddigwyddiad diwrnod llawn.

Gan fod y gynhadledd yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru, gofynnodd Clerc y Dref am awdurdod gan y Cyngor iddo ef, y Dirprwy Clerc, a'r Swyddog Cyllid i fynychu, gan y byddai llawer o'r diwrnod yn trafod yr ymrwymadau newydd sy'n wynebu Cyngorau Tref mewn perthynas ag Archwilio Mewnol, ad-drefnu a Deddf Llesiant Llywodraeth Cymru, a theimlai y byddai'n fuddiol.

PENDERFYNWYD awdurdodi Clerc y Dref, Dirprwy Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid i fynychu.

36. **EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

37. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad: